


Awst 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Ymgynghoriad ar y Graddfeydd Ffioedd ar gyfer 2020-21



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd barnau a sylwadau ar gynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyfraddau ffioedd ac agweddau eraill ar drefniadau'r ffi statudol ar gyfer gwaith archwilio.

Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno Cynllun Ffioedd 2020-21 gyda'r Ffioedd a Amcangyfrifir ar gyfer 2020-21, i'w hystyried gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yr hydref hwn. Caiff y Cynllun Ffioedd ei baratoi o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn ddibynnol ar gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r Cynllun Ffioedd a'r Ffioedd a Amcangyfrifir hynny.

Sut i ymateb

Rhaid ymateb erbyn 13 Medi 2019

Gellir anfon ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

Ymgynghoriad Graddfeydd Ffioedd
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Neu gellir eu llenwi'n electronig a'u hanfon drwy e-bost at:
gwybodaeth@archwilio.cymru

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch ar wahanol fformat a/neu mewn iaith wahanol, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a ddarparwyd uchod neu drwy ffonio 029 2032 0500.

Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ond hefyd deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech egluro pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad o ddifrif, ond ni allwn eich sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ar bob achlysur. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG yn ei hun yn cael ei ystyried yn rhwymedigaeth ar yr Archwilydd Cyffredinol nac ar Swyddfa Archwilio Cymru.

Bydd data personol yn cael ei brosesu yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Pan fydd data o'r fath yn syrthio o fewn cwmpas cais am wybodaeth gan unigolyn arall, bydd angen ystyried darpariaethau'r ddeddfwriaeth diogelu data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn yr amgylchiadau dan sylw. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, bydd hyn yn debygol o olygu y bydd gwybodaeth am uwchswyddogion a ffigyrau cyhoeddus yn debygol o gael ei datgelu, ac enwau a chyfeiriadau aelodau cyffredin o'r cyhoedd yn debygol o gael eu cadw'n ôl.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cynnwys

| | |
|--|----------|
| Trosolwg | 2 |
| Sut i ymateb | 2 |
| Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data | 3 |
| Ymgynghoriad | 5 |
| Neges gan ein Cyfarwyddwr Cyllid | 5 |
| Atodiad 1 | 7 |
| Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data) | 7 |
| Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff llywodraeth leol | 8 |

Ymgynghoriad



Neges gan ein Cyfarwyddwr Cyllid

Byddwch yn gyfarwydd â'n hymgyngoriad blynyddol ar raddfeydd ffioedd, yr ydym yn ei wneud ar yr un pryd â pharatoi amcangyfrif o'n cyllideb flynyddol i'w drafod â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Rydym wedi bod yn derbyn llai a llai o ymatebion bob blwyddyn, felly rydym yn ceisio cadw'r ymgynghoriad hwn (sy'n ofynnol i ni ei wneud yn ôl y gyfraith) mor syml a chosteffeithiol â phosibl. Noda'r ddeddfwriaeth **na all y ffioedd rydym yn eu codi fod yn fwy** na'r gost lawn o weithredu'r swyddogaeth

y mae'r ffi yn berthnasol iddi. Rydym yn gosod ein ffioedd archwilio ar sail amcangyfrif o'n costau sylfaenol, amcangyfrif o'r cymysgedd o sgiliau y bydd ei angen ar gyfer y gwaith archwilio, ac amcangyfrif o nifer y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Nid ydym, ac ni allwn, wneud elw ar ein gwaith.

Prif neges yr ymgynghoriad i gyrff sy'n cael eu harchwilio yw bod Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn benderfynol o gadw ffioedd archwilio dan reolaeth. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus wedi gweld gostyngiadau real yn eu ffioedd archwilio yn ystod y pedair blynedd diwethaf, oni bai fod amgylchiadau lleol wedi cyfiawnhau fel arall. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau ffioedd lle y gallwn wneud hynny drwy arbedion effeithlonrwydd a thrwy gadw ein costau gweithredu dan reolaeth. Bydd ein cyfarwyddwyr ymgysylltu yn trafod ffioedd sy'n benodol i archwiliadau gyda phob corff wrth i ni agosáu at y flwyddyn archwilio nesaf. Rydym hefyd yn bwriadu parhau i ddarparu mynediad am ddim at y Fenter Twyll Genedlaethol.

Ers 2014, mae'r gyfradd gyffredinol fesul awr ar gyfer ein gwaith, gan ystyried cymysgedd sgiliau ein staff, wedi gostwng i bron £2 yr awr, sy'n ostyngiad o 13% mewn termau real. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd wedi cytuno i'n cais i gyllido cynnydd annisgwyl a sylweddol mewn cyfraniadau pensiwn cyflogeion i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, yn hytrach na gorfod cynyddu ffioedd er mwyn adennill y costau ychwanegol.

Mae ein holl ragdybiaethau'n ddibynnol ar farn Pwyllgor Cyllid y Cynulliad o'n Hamcangyfrif (o'r gyllideb) ar gyfer 2020-21 a'n Cynllun Ffioedd drafft, a fydd yn cael ei mynegi y mis Tachwedd hwn. Mae'r pwyllgor yn craffu ar ein gwariant, perfformiad a'n cynlluniau cyllideb. Darperir rhagor o wybodaeth am y gwaith rydym yn ei wneud a'n costau/incwm yn ein [Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19](#) a'n [Hamcangyfrif Blynyddol](#) ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Mae gweddill y ddogfen hon yn darparu'r graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff llywodraeth leol. Mae'r graddfeydd yn dangos yr amrediad o ffioedd rydym yn disgwyl eu codi ar gorff nodweddiadol a gaiff ei archwilio yn y sector hwnnw (ond mae'r union ffi a godir ar unrhyw gorff penodol yn dibynnu ar amgylchiadau lleol). Mae deddfwriaeth yn gofyn am raddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff llywodraeth leol a'r Fenter Twyll Genedlaethol (hefyd yn [Atodiad 1](#)), ond nid oes eu hangen ar gyfer unrhyw sector arall.

Byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn 13 Medi er mwyn llywio ein trafodaeth Bwrdd ar y Cynllun Ffioedd drafft a'r Amcangyfrif ym mis Medi.

Gyda llawer o ddiolch

Steve O'Donoghue

Atodiad 1

Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

Gwahoddir eich barn ar barhau i gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol am ddim.

- 1 Mae'n ofynnol i ni ymgynghori ar raddfeydd ffioedd ar gyfer paru data ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn y Fenter Twyll Genedlaethol ac i osod y graddfeydd hyn. Cynhelir y Fenter Twyll Genedlaethol gan yr Archwilydd Cyffredinol drwy arfer ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- 2 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn offeryn effeithiol dros ben o ran canfod ac atal twyll a gordaliadau. Ers iddi ddechrau ym 1996, mae ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol wedi arwain at ganfod ac atal mwy na £30 miliwn o hawliadau twyllodrus a gordaliadau yng Nghymru, ac £1.3 biliwn ledled y DU.
- 3 Ers mis Ebrill 2015, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi talu am y costau o redeg y Fenter Twyll Genedlaethol drwy daliadau o Gronfa Gyfunol Cymru, fel y'u cymeradwywyd drwy Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru. Diben hyn yw annog sefydliadau i gymryd rhan yn wirfoddol, ac mae hefyd yn symleiddio'r trefniadau i gyfranogwyr sy'n gorfod cymryd rhan. Dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn **Arddangosyn 1**, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

Arddangosyn 1: ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol

| | Ffi 2020-21 |
|--|--------------------|
| Awdurdod unedol; Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstablaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol. | Dim |
| Cyfranogwyr gwirfoddol | Dim |
| Gall pob cyfranogwr hefyd gael mynediad i Wiriwr Ceisiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (AppCheck) | Dim |

Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff llywodraeth leol

Gwahoddir eich barn ar y graddfeydd ffioedd arfaethedig a fydd yn gymwys i gyrff llywodraeth leol ar gyfer archwilio cyfrifon 2019-20 a gwaith archwilio perfformiad 2020-21.

Awdurdodau unedol


Arddangosyn 2: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2019-20

| Gwariant gros £miliwn | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn flaenorol Canolrif £'000 |
|--------------------------|------------------|------------------|------------------|--|
| | Isafswm £000 | Canolrif £000 | Uchafswm £000 | |
| 100 | 113 | 133 | 153 | 138 |
| 200 | 136 | 161 | 185 | 166 |
| 300 | 152 | 179 | 206 | 185 |
| 400 | 164 | 193 | 222 | 199 |
| 500 | 174 | 205 | 236 | 211 |
| 600 | 183 | 215 | 247 | 222 |
| 700 | 190 | 224 | 258 | 231 |
| 800 | 197 | 232 | 267 | 240 |
| 900 | 204 | 240 | 276 | 247 |
| 1,000 | 209 | 246 | 283 | 254 |
| 1,100 | 215 | 253 | 291 | 261 |
| 1,200 | 220 | 259 | 297 | 267 |

Arddangosyn 3: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2020-21

| Pob awdurdod unedol | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn flaenorol Canolrif £'000 |
|------------------------|------------------|------------------|------------------|--|
| | Isafswm £000 | Canolrif £000 | Uchafswm £000 | |
| | 93 | 101 | 112 | 99 |

Arddangosyn 4: llun o gyfanswm y raddfa ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol



Cronfeydd pensiwn llywodraeth Leol

Arddangosyn 5: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyrifon 2019-20

| Pob cronfa bensiwn | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn flaenorol Canolrif £'000 |
|--------------------|------------------|------------------|------------------|---|
| | Isafswm £000 | Canolrif £000 | Uchafswm £000 | |
| | 30 | 41 | 48 | 40 |

Awdurdodau tân ac achub


Arddangosyn 6: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2019-20

| Gwariant gros £miliwn | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn flaenorol Canolrif £'000 |
|--------------------------|------------------|------------------|------------------|--|
| | Isafswm £000 | Canolrif £000 | Uchafswm £000 | |
| 20 | 33 | 39 | 45 | 40 |
| 40 | 40 | 47 | 54 | 49 |
| 60 | 45 | 52 | 60 | 54 |
| 80 | 48 | 57 | 65 | 58 |
| 100 | 51 | 60 | 69 | 62 |

Arddangosyn 7: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2020-21

| Pob awdurdod tân ac achub | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn flaenorol Canolrif £'000 |
|------------------------------|------------------|------------------|------------------|--|
| | Isafswm £000 | Canolrif £000 | Uchafswm £000 | |
| | 16 | 16 | 16 | 16 |

Arddangosyn 8: Ilun o gyfanswm y raddfa ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub



Awdurdodau parciau cenedlaethol

Arddangosyn 9: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2019-20

| Gwariant gros £miliwn | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn flaenorol Canolrif £'000 |
|--------------------------|------------------|------------------|------------------|--|
| | Isafswm £000 | Canolrif £000 | Uchafswm £000 | |
| 2 | 21 | 24 | 28 | 25 |
| 4 | 25 | 29 | 34 | 30 |
| 6 | 28 | 32 | 37 | 34 |
| 8 | 30 | 35 | 40 | 36 |
| 10 | 32 | 37 | 43 | 38 |

Arddangosyn 10: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2020-21

| Pob awdurdod parc cenedlaethol | Amrediad ffioedd | | | Blwyddyn flaenorol Canolrif £'000 |
|-----------------------------------|------------------|------------------|------------------|--|
| | Isafswm £000 | Canolrif £000 | Uchafswm £000 | |
| | 14 | 17 | 19 | 17 |


Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

Mae archwilwyr yn cynnal dau archwiliad o ddau gorff statudol mewn ardal heddlu – y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstablaiid. Yr archwilwyr fydd yn pennu sut y bydd cyfanswm y ffi yn cael ei rannu rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, a gwneir hyn ar sail gofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol sydd ar waith gan bob un o'r cyrff.

Arddangosyn 11: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2019-20

| Gwariant gros cyfunol y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstablaiid £miliwn | Amrediad ffioedd cyfunol ar gyfer y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstablaiid | | | Blwyddyn flaenorol Canolrif £'000 |
|---|--|------------------|------------------|--|
| | Isafswm £000 | Canolrif £000 | Uchafswm £000 | |
| 50 | 54 | 64 | 74 | 66 |
| 100 | 65 | 76 | 88 | 79 |
| 150 | 72 | 85 | 97 | 87 |
| 200 | 77 | 91 | 105 | 94 |
| 250 | 81 | 96 | 111 | 99 |
| 300 | 85 | 101 | 116 | 104 |
| 350 | 89 | 105 | 121 | 108 |

Arddangosyn 12: llun o gyfanswm y raddfa ffioedd ar gyfer y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabiaid



Cynghorau tref a chymuned a chanddynt incwm neu wariant dan £2.5 miliwn

Ceir cyfundrefn archwilio sicrwydd gyfyngedig ar gyfer cynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Ers 2016-17, rydym wedi codi am waith ar sail amser yn hytrach na defnyddio'r hen ddull o godi ffi yn unol â bandiau gwariant/incwm.

Mae'r taliadau cyfraddau ffioedd fel y'u nodir yn **Arddangosyn 13**.

Mewn amgylchiadau lle bo'r archwilydd yn gofyn am dystiolaeth bellach er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, gan gynnwys cyhoeddi adroddiad cysylltiedig dilynol er budd y cyhoedd, cynhelir profion ychwanegol er mwyn ymdrin â phryderon yr archwilydd.

Dylid pwysleisio y bydd y tâl gwirioneddol a godir gan unrhyw gorff neilltuol yn ddibynnol ar yr amser gwirioneddol a dreuliwyd yn gweithio ar yr archwiliad neilltuol hwnnw. At ddibenion dangosol yn unig y darperir yr amrediadau yn y tabl isod.

Arddangosyn 13: taliadau am archwilio cyfrifon 2019-20 cynghorau tref a chymuned ar sail amcangyfrif o amser

| Incwm neu wariant blynyddol | Tâl gwaelodlin dangosol | Ffi amrediad uchaf dangosol |
|------------------------------------|--------------------------------|------------------------------------|
| £0 – £5,000 | £140 | £280 |
| £5,001 – £100,000 | £160 | £320 |
| £100,001 – £500,000 | £200 | £380 |
| £500,001 – £2,500,000 | £240 | £460 |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru